# MANIFFESTO CYNHESRWYDD

**National Energy Action Cymru (NEA)** yw'r elusen tlodi tanwydd genedlaethol. Rydym wedi gweithio ar draws Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon ers dros 40 mlynedd, i sicrhau y gall pawb fforddio byw mewn cartref cynnes ac iach.

## Blaenoriaethau Cynhesrwydd

Ymrwymo **i gynyddu buddsoddiad mewn effeithlonrwydd ynni yn sylweddol** er mwyn torri biliau, mynd i'r afael â thlodi tanwydd, a gwneud cartrefi'n fwy gwyrdd

Cyflwyno **cynllun statudol** i roi terfyn ar dlodi tanwydd

Darparu **cymorth ariannol ychwanegol** i aelwydydd sydd mewn tlodi tanwydd

Amcangyfrifir bod mwy na phedair o bob pump o aelwydydd incwm isel Cymru yn byw mewn tlodi tanwydd.

Mae cyfuniad gwenwynig o incwm isel, prisiau ynni uchel a chartrefi heb eu hinswleiddio'n ddigonol yn gadael llawer yn methu fforddio'r hanfodion. Mae gormod yn byw mewn cartrefi oer, yn dogni'r hanfodion, ac yn sownd mewn dyled – gyda chanlyniadau difrifol i iechyd corfforol a meddyliol. Mae plant yn tyfu i fyny mewn amodau a all niweidio eu cyfleoedd bywyd am ddegawdau.

Mae **Etholiad y Senedd sydd ar ddod yn gyfle hanfodol i ganolbwyntio ymdrechion ar y cyd a dileu tlodi tanwydd o'n cartrefi drwy waith adeiladu, gan sicrhau y gall pobl agored i niwed ar draws Cymru fforddio cadw'n gynnes nawr ac yn y dyfodol**. Rhaid i hyn fod yn foment i bob plaid wleidyddol ymrwymo i weithredu'n barhaus i ddod â thlodi tanwydd i ben yng Nghymru – gan atal niwed a chreu buddion cymdeithasol ac economaidd allweddol ar draws tai, iechyd, yr amgylchedd a chyfiawnder cymdeithasol.

Os hoffech fwy o wybodaeth, cysylltwch â **maisie.chatfield@nea.org.uk**

**nea.org.uk/cymru**

Mae National Energy Action Cymru yn elusen annibynnol, Rhif Cofrestru 290511. Cwmni cyfyngedig trwy warant. Cofrestredig yng Nghymru a Lloegr, Rh. 01853927.
Swyddfa gofrestredig: Wellbar House, 36 Gallowgate, Newcastle upon Tyne, NE1 4TD

# Ein cynigion

## Ymrwymo i gynyddu buddsoddiad mewn effeithlonrwydd ynni yn sylweddol er mwyn torri biliau, mynd i'r afael â thlodi tanwydd, a gwneud cartrefi'n fwy gwyrdd

Rhaid i ôl-osod er datgarboneiddio arwain at gartrefi cynhesach. Mae Cynllun Cartrefi Cynnes Llywodraeth y DU wedi derbyn cefnogaeth o £13.2 biliwn gan Drysorlys EF. Bydd hyn yn cynnwys swm canlyniadol Barnett i Gymru yr ydym yn amcangyfrif y gallai gyfateb i dros hanner biliwn o bunnoedd.

Er y bydd hyn yn cael ei dderbyn o fewn setliad ariannol ehangach, mae'n hanfodol bod pob plaid wleidyddol yn ymrwymo i ddefnyddio budd llawn canlyniad y Cynllun Cartrefi Cynnes tuag at yr un nod o fynd i'r afael â thlodi tanwydd a gwneud cartrefi'n fwy gwyrdd yng Nghymru.

Mae tystiolaeth sylweddol o'r achos economaidd dros fuddsoddi mewn effeithlonrwydd ynni cartrefi Cymru er mwyn amddiffyn aelwydydd incwm isel ac agored i niwed, a byddai'n creu buddion sylweddol i Gymru, gan gynnwys arbedion posibl o £290 miliwn oddi ar filiau ynni, creu tua 800 o swyddi, a chynhyrchu cyfanswm budd amcangyfrifedig o £2.4 biliwn erbyn 2030 – a hynny i gyd ar yr un pryd ag arbed tua £400 y flwyddyn oddi ar filiau ynni cartrefi. Byddai ymyriad o'r fath hefyd yn helpu mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd y gellir eu hosgoi, gan yr amcangyfrifir bod cartrefi oer yn costio o leiaf £95 miliwn i'r GIG yng Nghymru bob blwyddyn.

## Cyflwyno cynllun statudol i roi terfyn ar dlodi tanwydd

Er ein bod efallai heibio'r gwaethaf o'r prisiau ynni uchel, ychydig o gynnydd a wnaed i fynd i'r afael â chyfraddau tlodi tanwydd a chyflawni targedau yng Nghymru; targedau a fyddai'n creu manteision cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol enfawr.

Nid yw targedau tlodi tanwydd yng Nghymru ar sail statudol ar hyn o bryd ac nid ydynt eto'n bodloni rhwymedigaethau cyfreithiol Llywodraeth Cymru i nodi'r amcanion dros dro sydd i'w cyflawni a'r dyddiadau targed ar gyfer eu cyflawni. Bydd cyflwyno cynllun statudol i roi terfyn ar dlodi tanwydd yn helpu Llywodraeth Cymru i sbarduno'r camau gweithredu a'r buddsoddiad sy'n angenrheidiol er mwyn gwella effeithlonrwydd ynni a gwneud dileu tlodi tanwydd yn nod polisi hirdymor realistig.

## Darparu cymorth ariannol ychwanegol i aelwydydd sydd mewn tlodi tanwydd

Mae biliau ynni'n parhau i fod allan o gyrraedd cannoedd ar filoedd o'r aelwydydd tlotaf ledled Cymru, ac mae llawer yn dweud wrthym eu bod yn dogni eu hynni ac yn hepgor hanfodion eraill i leihau costau.

Dylai pob plaid wleidyddol roi hwb i incwm aelwydydd sydd mewn tlodi tanwydd yng Nghymru drwy:

1. Ddiogelu a gwella'r Gronfa Cymorth Dewisol (CCD) a gwneud y mwyaf o gyfleoedd i fabwysiadu dull ataliol a sicrhau bod buddiolwyr yn cyrchu cymorth ehangach.
2. Symleiddio'r system fudd-daliadau yng Nghymru i sicrhau bod pobl yn cael y gefnogaeth y mae ganddynt hawl iddi, wedi'i huwchraddio'n flynyddol yn ôl chwyddiant.
3. Galw ar Lywodraeth y DU ac Ofgem i wneud biliau ynni'n fwy fforddiadwy i'r aelwydydd mwyaf agored i niwed, a'u helpu i leihau lefelau dinistriol o ddyled ynni.